**Carl Sargeant AC / AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref -MA(P)/CS/0492/17

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

9 Chwefror 2017

Annwyl John,

Tra oeddwn yng nghyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 19 Ionawr, ymrwymais i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y gwaith a wnaed gyda'r cyfryngau gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru (CFfC) ac i roi manylion cyswllt Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid i chi, yn dilyn yr arolygiad a gafodd ei chynnal fel rhan o'r gwaith o adolygu'r Rhaglen i Adsefydlu Ffoaduriaid o Syria.

Mae CFfC ar hyn o bryd yn cael cyllid ar gyfer ei brosiect Cynhwysiant i Ffoaduriaid yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant. Un o'r tasgau yn ei gynllun gwaith yw 'Gweithio â'r Cyfryngau i gynhyrchu rhaglenni i'r cyfryngau er mwyn hybu arfer da i herio diwylliant o ofni ceiswyr lloches a ffoaduriaid, ac o wahaniaethu yn eu herbyn'. Mae CFfC wedi darparu'r manylion llawn ac rwy'n eu hamgáu gyda'r llythyr hwn fel Atodiad A.

Prif nod y gwaith hwn yw newid canfyddiadau'r cyhoedd, yn benodol ynghylch y rhesymau y mae pobl yn ceisio noddfa a'r cyfraniad y maent yn ei wneud i Gymru ac i'r DU. Gall gwell dealltwriaeth helpu i feithrin datblygiad ceiswyr lloches a ffoaduriaid mewn sawl agwedd o fywyd, a helpu i wella cydlyniant cymunedol.

Mae llawer o newyddiadurwyr heb fod yn llwyr ymwybodol o'r ffeithiau ynglŷn â cheisio lloches a mudo ac mae CFfC wedi gweithio â chyflwynwyr blaenllaw a chwmnïau bach ym maes y cyfryngau, a chyda myfyrwyr newyddiaduraeth, gan ddarparu amrywiaeth eang o wybodaeth am geiswyr lloches iddynt er mwyn sicrhau bod adroddiadau'n gywir.

Elfen arall yw ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn cymryd rhan mewn straeon yn y cyfryngau; mae CFfC yn darparu cefnogaeth a hyfforddiant, pan fo'r angen, i bobl sy'n dymuno siarad â'r cyfryngau. Mae hyn yn cynnwys eu helpu nhw i ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau wrth wneud sylwadau, cymorth cyfieithu, a sicrhau eu bod yn deall y risgiau sydd ynghlwm wrth ddefnyddio eu henwau ar gyfer stori. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt ddweud eu hanes yn y ffordd y mynnent.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dyma fanylion cyswllt Gonzalo Vargas Llosa o Uchel Gomisiwn y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid:

UNHCR
10 Furnival Street
Llundain
EC4A 1AB

0203 761 9500

Yn ogystal â’r ymrwymiadau a wnaed gennyf yn ystod cyfarfod y Pwyllgor, hoffwn egluro'r sefyllfa mewn perthynas â Phlant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches yng Nghymru. Yn fy nhystiolaeth, dywedais fod 27 o blant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches wedi cael eu hadsefydlu yng Nghymru. Deilliodd y ffigur hwn o nifer o ffynonellau ac mae'n ymwneud â'r cyfnod yn dilyn cau gwersyll y 'Jyngl' yng Nghalais. Felly, mae'n amlwg yn gipolwg o amser penodol. Cafodd y plant hyn eu croesawu i Gymru drwy nifer o gynlluniau Llywodraeth y DU (Dubs, Dulyn III a'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol) ar gyfer plant a rhai o'r dyfodiaid dirybudd. Nid yw'r plant hyn i gyd wedi cartrefu nac am gartrefu yng Nghymru, gan y bydd rhai ohonynt yn symud ymlaen i rannau eraill o'r DU i ailymuno â'u teuluoedd.

Mae'n bwysig nodi bod nifer y Plant ar eu Pen eu Hun yn Ceisio Lloches yng Nghymru yn newid yn barhaus, yn bennaf oherwydd 'dyfodiaid dirybudd'. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu a chynnal system adrodd a chasglu data, er mwyn darparu ffigurau o ran nifer y bobl y cynlluniwyd iddynt gyrraedd drwy'r cynlluniau cenedlaethol yn ogystal â dyfodiaid dirybudd o'r fath. Byddwn yn hapus i ddarparu ffigur mwy diweddar, a chadw'r amrywiad parhaus mewn cof, yn ystod yr wythnosau i ddod.

Mae plant sy’n cyrraedd yn ddirybudd yn cael effaith sylweddol ar gapasiti a gallu rhai awdurdodau lleol i gymryd rhan yn y cynlluniau trosglwyddo ffurfiol. Mae llawer o leoliadau ychwanegol wedi cael eu cynnig, yn enwedig yn sgil cau gwersyll Calais, ond nid yw'r Swyddfa Gartref bob amser wedi gallu ymateb yn ddigon cyflym i fanteisio ar y cynigion hyn.

O ran y dyfodol, ni allaf roi rhif ar nifer y bobl a ddisgwylir gan fod y sefyllfa wedi bod yn ansefydlog erioed, a bydd yn parhau i fod felly. Mae Cymru'n dibynnu ar ddau beth, sef bod yr wybodaeth am blant sy'n cyrraedd yn cael ei throsglwyddo mewn da bryd, a gallu awdurdodau lleol i ddarparu lleoliadau ar yr adeg pan fo'u hangen. Fel y dywedwyd yn y Pwyllgor, dim ond am hyn a hyn o amser y gall awdurdodau lleol gadw lleoedd cyn bod rhaid eu rhyddhau ar gyfer plant eraill sydd mewn angen.

Yn ogystal, dywedais y byddwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf i chi ynghylch proses gaffael Gwasanaeth Cynnwys Ffoaduriaid, Ceiswyr Lloches a Mudwyr Llywodraeth Cymru. Mae fy swyddogion wedi anfon y llythyrau hysbysiad o ddyfarniad ac, ar ôl cyfnod segur o 10 diwrnod, bydd y hysbysiad dyfarnu contract yn cael ei gyhoeddi. Byddaf yn ysgrifennu llythyr arall atoch yn darparu manylion yr ymgeisydd llwyddiannus cyn gynted ag y bydd yr hysbysiad hwn wedi cael ei gyhoeddi.

**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children